

MAE pobl yn cael eu hannog i droi at y gwyllt a chrwydro cefn gwlad.

Mae Cyngor Tref y Rhyl a Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych yn ymuno i redeg *Y Rhyl Wyllt*, a fydd yn canolbwyntio ar un o fannau gwyrdd y dref.

Mae'r digwyddiad undydd, am ddim, yn dilyn llwyddiant Penwythnos Gwyllt y llynedd a bydd yn cynnwys gweithgareddau megis creffttau cefn gwlad, pysgota, reidio beics a theithiau tywys.

I'w gynnal ar Fedi 16 ym Mhwll Brickfield y Rhyl, bydd y digwyddiad yn rhoi cyfle i bobl weld ochr wahanol i'r dref.

Meddai Maer y Rhyl, y Cyngorydd Alan James: "Mae'r Rhyl yn lle arbennig iawn sy'n cynnig rhywbeth i bawb. Dros y flwyddyn, mae'r cyngor tref yn cynnal digwyddiadau ym mhob rhan o'r Rhyl a mis Medi eleni byddwn yn canolbwyntio ar ein cefn gwlad.

"Mae gennym olygfeydd anhygoel a manau ardderchog o gefn gwlad i'w crwydro ar gyrion y dref ac rydym wrth ein boddau yn ymuno â Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych am yr ail flwyddyn. Mae'r *Rhyl Wyllt* yn gyfle i grwydro Brickfield gyda'r bobl sy'n gweithio yma bob dydd ac sy'n gwybod am yr holl drysorau cudd. Mae yna gyfle hefyd i bobl gael blas ar greffttau cefn gwlad a rhoi cynnig ar rywbeth a all ddod yn hobi newydd."

Bydd gweithgareddau ar y dydd yn cynnwys plygu gwrychoedd, plethu helyg, gwneud blychau adar a bathodynau, trochi pwll, teithiau tywys byr i bob oedran, gweithdai drymio, peintio wynebau ac adrodd straeon.

Mae Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych hefyd yn annog pobl i ddod draw ar y dydd a rhannu eu hatgofion o Bwll Brickfield dros y blynyddoedd. Fel hen dwll clai, roedd y pwll unwaith yn chwarae rôl allweddol yn niwydiant gwneud brics yr ardal. Mae'r cyngor eisiau casglu atgofion lleol gyda golwg ar efallai greu nodwedd hanes barhaol wrth y pwll.

Mwy/...



-2-

Dyweddodd cyngorydd Sir Ddinbych a Thref y Rhyl Tony Thomas, Aelod Arweiniol Sir Ddinbych ar gyfer Tai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd: "Mae Pwll Brickfield yn un o fannau mwyaf adnabyddus y Rhyl i gerdded, pysgota neu wyllo bywyd gwylt. Ond mae ganddo hanes cyfoethog hefyd fel y twll clai oedd yn gwasanaethu gwaith brics y dref.

"Bydd digwyddiad *Y Rhyl Wylt* yn rhoi cyfle i bobl grwydro o gwmpas yr ardal wych hon, ond hefyd yn rhoi cyfle iddynt lunio ei dyfodol. Hoffem i unrhyw un gyda gwybodaeth hanesyddol – lluniau, gwaith papur, arteffactau – ddod â nhw gyda nhw ar y diwrnod er mwyn i ni fedru eu cofnodi a'u copïo fel rhan o'n hymgyngoriad a fydd, gobeithiwn, yn arwain at nodwedd hanes barhaol wrth y pwll."

Bydd *Y Rhyl Wylt* yn rhedeg rhwng 11am-4pm ar ddydd Sadwrn Medi 16.

Diwedd

